# Agenda – Y Cyfarfod Llawn

Lleoliad y cyfarfod:

**Y Siambr – Y Senedd**

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mercher, 23 Tachwedd 2022

Amser y cyfarfod: 13.30

# 105(v4)

Cynhelir y cyfarfod hwn ar ffurf hybrid, gyda rhai Aelodau yn Siambr y Senedd ac eraill yn ymuno drwy gyswllt fideo.

## 1 Cwestiynau i'r Gweinidog Newid Hinsawdd

(45 munud)

Mae'r Llywydd wedi cael gwybod, o dan Reol Sefydlog 12.58, y bydd y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd yn ateb cwestiynau ar ran y Gweinidog.

Bydd y Llywydd yn galw ar Lefarwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Dirprwy Weinidog ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

## 2 Cwestiynau i Weinidog y Gymraeg ac Addysg

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar Lefarwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Gweinidog ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

## 3 Cwestiynau Amserol

(20 munud)

**Gofyn i'r Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad**

Adam Price (Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr): Pa asesiad y mae'r Cwnsler Cyffredinol wedi'i wneud o sut bydd dyfarniad y Goruchaf Lys ar fwriad Senedd yr Alban i gynnal ail refferendwm ar annibyniaeth yn effeithio ar allu Cymru i benderfynu ar ei dyfodol cyfansoddiadol ei hun?

## 4 Datganiadau 90 Eiliad

(0 munud)

## 5 Cynnig i gymeradwyo Cyllideb Comisiwn y Senedd ar gyfer 2023-24

(30 munud)

**NDM8137** Ken Skates (De Clwyd)

Cynnig bod y Senedd, yn unol â Rheol Sefydlog 20.16:

Yn cytuno ar gyllideb Comisiwn y Senedd ar gyfer 2023-24, fel y pennir yn Nhabl 1 o Gyllideb Comisiwn y Senedd ar gyfer 2023-24, a osodwyd gerbron y Senedd ar 9 Tachwedd 2022, a'i bod yn cael ei hymgorffori yn y Cynnig Cyllidebol Blynyddol o dan Reol Sefydlog 20.26(ii).

**Dogfennau Ategol**

Adroddiad y Pwyllgor Cyllid

Ymateb Comisiwn y Senedd i adroddiad y Pwyllgor Cyllid

Llythyr gan Gomisiynydd y Cyllideb a Lywodraethu i'r Pwyllgor Cyllid

## 6 Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Safonau Ymddygiad - Chweched Adroddiad i'r Chweched Senedd o dan Reol Sefydlog 22.9

(15 munud)

**NDM8136** John Griffiths (Dwyrain Casnewydd)

Cynnig bod y Senedd:

1. Yn ystyried Adroddiad y Pwyllgor Safonau Ymddygiad - Chweched Adroddiad i'r Chweched Senedd a osodwyd gerbron y Senedd ar 16 Tachwedd 2022 yn unol â Rheol Sefydlog 22.9

2. Yn cymeradwyo'r argymhelliad yn yr adroddiad.

## 7 Dadl Aelodau o dan Reol Sefydlog 11.21(iv) - Iechyd meddwl a gwytnwch cymunedol

(60 munud)

**NDM8130** Jenny Rathbone (Canol Caerdydd)

Cynnig bod y Senedd:

1. Yn nodi:

a) cyhoeddi adroddiad Gyda'n Gilydd drwy Adegau Anodd gan MIND Cymru;

b) bod gwytnwch cymunedol yn cael effaith gadarnhaol ar iechyd meddwl da.

2. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i:

a) gweithio gyda'r sector gwirfoddol a chymunedol i adeiladu cymunedau gwydn drwy:

(i) hyrwyddo cyfalaf cymdeithasol;

(ii) buddsoddi mewn asedau cymunedol;

(iii) mynd i'r afael â rhwystrau sy'n wynebu rhai grwpiau;

b) cynnwys y rôl a chwaraeir gan asedau a rhwydweithiau cymunedol mewn unrhyw strategaeth iechyd meddwl yn y dyfodol.

Gyda'n Gilydd drwy Adegau Anodd

**Cefnogwyr**

Huw Irranca-Davies (Ogwr)

Mike Hedges (Dwyrain Abertawe)

Sam Rowlands (Gogledd Cymru)

Sioned Williams (Gorllewin De Cymru)

Vikki Howells (Cwm Cynon)

## 8 Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai - Darparu safleoedd ar gyfer cymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr

(60 munud)

**NDM8139** John Griffiths (Dwyrain Casnewydd)

Cynnig bod y Senedd:

Yn nodi adroddiad y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 'Darparu safleoedd ar gyfer cymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr', a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 11 Awst 2022.

Noder: Gosodwyd ymateb Llywodraeth Cymru i'r adroddiad yn y Swyddfa Gyflwyno ar 16 Tachwedd 2022.

## 9 Dadl Plaid Cymru - Tâl nyrsys

(60 munud)

**NDM8140** Sian Gwenllian (Arfon)

Cynnig bod y Senedd:

1. Yn credu bod nyrsys Cymru yn haeddu tâl teg am eu gwaith hanfodol o ran cadw ein cymunedau'n ddiogel ac yn iach.

2. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i ddefnyddio pob ysgogiad datganoledig sydd ar gael iddi er mwyn gwneud cynnig tâl gwell i nyrsys y GIG yng Nghymru.

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1** Lesley Griffiths (Wrecsam)

Dileu pwynt 2

**Gwelliant 2** Darren Millar (Gorllewin Clwyd)

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i gyfarfod â Choleg Nyrsio Brenhinol Cymru i drafod ei ymgyrch ar gyfer cyflog teg a staffio diogel i osgoi streicio y gaeaf hwn.

## 10 Cyfnod Pleidleisio

## 11 Dadl Fer

(30 munud)

**NDM8138** Cefin Campbell (Canolbarth a Gorllewin Cymru)

Mewn undod mae nerth: mentrau cymdeithasol a busnesau dan berchnogaeth cymunedau yng Nghymru

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Senedd am 13.30, Dydd Mawrth, 29 Tachwedd 2022

# Cwestiynau Llafar a gyflwynwyd ar 16/11/2022 i'w hateb ar 23/11/2022

Bydd y Llywydd yn galw ar lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd ar ôl cwestiwn 2.

## Y GWEINIDOG NEWID HINSAWDD

**Sarah Murphy** *Pen-y-Bont ar Ogwr*

1 OQ58731 **(e)**

Sut mae Llywodraeth Cymru'n gweithio i leihau'r defnydd dyddiol o ddŵr mewn cartrefi?

**Ken Skates** *De Clwyd*

2 OQ58740 **(e)**

A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am adolygiad Llywodraeth Cymru o welliannau cyffyrdd ar yr A483?

**James Evans** *Brycheiniog a Sir Faesyfed*

3 OQ58745 **(e)**

Beth mae'r Gweinidog wedi'i wneud i leihau ôl-troed carbon ei hadran yn ystod y flwyddyn ddiwethaf?

**Paul Davies** *Preseli Sir Benfro*

4 OQ58727 **(e)**

A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y cyfleoedd ddaw yn sgil datblygu ynni gwynt ar y môr arnofiol yng Nghymru?

**Adam Price** *Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr*

5 OQ58747 **(e)**

Pa gynlluniau sydd gan Lywodraeth Cymru i gynyddu ansawdd ac argaeledd teithiau trenau yn Nwyrain Caerfyrddin a Dinefwr?

**John Griffiths** *Dwyrain Casnewydd*

6 OQ58752 **(e)**

A wnaiff y Gweinidog amlinellu polisi Llywodraeth Cymru i wella amgylcheddau trefol mewnol?

**Janet Finch-Saunders** *Aberconwy*

7 OQ58730 **(e)**

Pa asesiad y mae'r Gweinidog wedi'i wneud o faint o stoc tai gwag sydd ar dir sy'n eiddo i awdurdodau cyhoeddus?

8 **Altaf Hussain** *Gorllewin De Cymru*

OQ58737 **(e)**

Pa asesiad y mae'r Gweinidog wedi'i wneud o'r potensial o ddefnyddio pŵer y môr i gynhyrchu ynni adnewyddadwy?

9 **Natasha Asghar** *Dwyrain De Cymru*

OQ58739 **(e)**

Pa gynlluniau sydd gan Lywodraeth Cymru i wella trafnidiaeth gyhoeddus?

10 **Cefin Campbell** *Canolbarth a Gorllewin Cymru*

OQ58759 **(e)**

Pa asesiad y mae Llywodraeth Cymru wedi'i wneud o rôl bosib ffermio cefnforol adfywiol yn y broses o frwydro yn erbyn newid hinsawdd ac adfer bioamrywiaeth yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru?

11 **Heledd Fychan** *Canol De Cymru*

OQ58749 **(e)**

Sut mae Llywodraeth Cymru yn sicrhau nad yw costau trafnidiaeth yn effeithio ar bresenoldeb dysgwyr yn yr ysgol?

12 **Vikki Howells** *Cwm Cynon*

OQ58732 **(e)**

Beth yw blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer gwella mynediad at drafnidiaeth gyhoeddus yng Nghwm Cynon?

## GWEINIDOG Y GYMRAEG AC ADDYSG

1 **Heledd Fychan** *Canol De Cymru*

OQ58751 **(w)**

Sut mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi dysgwyr yng Nghanol De Cymru y mae eu mynediad at addysg wedi ei effeithio gan yr argyfwng costau byw?

2 **James Evans** *Brycheiniog a Sir Faesyfed*

OQ58743 **(e)**

Pa gamau mae'r Gweinidog yn eu cymryd i sicrhau bod addysg yn cael ei ddarparu mewn fformat wyneb yn wyneb?

3 **Adam Price** *Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr*

OQ58748 **(e)**

Beth mae Llywodraeth Cymru'n ei wneud i gefnogi dysgwyr ôl-16 oed yn Nwyrain Caerfyrddin a Dinefwr sy'n derbyn y lwfans cynhaliaeth addysg?

**John Griffiths** *Dwyrain Casnewydd*

4 OQ58753 **(e)**

Sut fydd cyflwyno'r cwricwlwm newydd yn mynd i'r afael ag effaith amddifadedd ar addysg?

**Altaf Hussain** *Gorllewin De Cymru*

5 OQ58738 **(e)**

Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael gyda'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a sefydliadau addysg bellach ac addysg uwch ynglŷn â datblygu hyfforddiant ar gyfer gweithwyr proffesiynol ym maes gofal cymdeithasol?

**Peter Fox** *Mynwy*

6 OQ58755 **(e)**

Sut fydd cwricwlwm newydd Cymru yn helpu pobl ifanc i adnabod niwed ar-lein ac amddiffyn eu hunain rhagddo?

**Llyr Gruffydd** *Gogledd Cymru*

7 OQ58756 **(w)**

Pa gefnogaeth y mae'r Llywodraeth yn ei rhoi i sicrhau gweithgareddau hamdden drwy gyfrwng y Gymraeg i blant a phobol ifanc?

**Sioned Williams** *Gorllewin De Cymru*

8 OQ58757 **(w)**

A wnaiff y Gweinidog roi diweddariad ar unrhyw gynnydd mewn denu pobl i hyfforddi fel athrawon i ddysgu mewn ysgolion uwchradd cyfrwng Cymraeg?

**Mark Isherwood** *Gogledd Cymru*

9 OQ58750 **(e)**

Sut mae Llywodraeth Cymru'n cefnogi disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol?

**Tom Giffard** *Gorllewin De Cymru*

10 OQ58758 **(e)**

A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am gyfraddau absenoldeb ysgolion?

**Gareth Davies** *Dyffryn Clwyd*

11

## OQ58734 (e)

A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am effaith diwygiadau ym maes ysgolion cartref ar bobl yn Sir Ddinbych?

**Delyth Jewell** *Dwyrain De Cymru*

12

## OQ58735 (w)

Pa gynlluniau sydd ar y gweill gan Lywodraeth Cymru i hyfforddi mwy o athrawon cyfrwng Cymraeg yng Nghymru?